

**CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWD YN
NEUADD YSGOL GYNRADD LLANDDOGED, NOS LUN, MEHEFIN 26ain, 2023**

PRESENNOL

Cyng. Alun Morris (Cadeirydd), Cyng. Hefin Martin, Cyng. John Owen, Cyng. Eifion Williams, Delyth Algieri (clerc).

Cyng Aaron Wynne(Cynghorydd Sir) Cyng Nia Owen(Cynghorydd Sir)

YMDDIHEURIADAU

Cyng. Dylan Jones, Cyng. Arwel Ll Jones, Cyng. Anwen Jones, Cyng Nerys Dobson

CADARNHAU'R COFNODION

Cynnigwyd y cofnodion a gynhaliwyd ar 25 Mai, 2023 yn gywir gan (JO) ac eilwyd gan (EW)

1. MATERION YN CODI O'R CYFARFOD DIWETHAF

1.1 MATERION BAW CWN

Mr Emyr Jones o'r Adran Amgylchedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cadarnhau ei fod am osod y biniau cwn – clerc i gyfarfod gyda Mr Jones 27ain o Fehefin, 2023 i gadarnhau lleoliadau'r biniau cwn.

1.2 ARWYDD AR GYFER MAES PARCIO CADAIR IFAN GOCH, MAENAN

Eglurodd y clerc ei bod wedi derbyn neges gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fod arian grant ar gael gan

Cronfa Gymunedol Dŵr Cymru gyda grantiau fyny at £5000 ar gael i gymunedau lleol. Bydd y clerc yn cyfarfod swyddog grantiau yn Glasdir ar y 27ain Mehefin i gwblhau'r ffurflenni priodol ar gyfer cais grant am arwydd l'r Maes Parcio Cadair Ifan Goch, Maenan.

2. MAES PARCIO CEGIN WEN, LLANDDOGED

Trafodwyd cyflwr y maes parcio Cegin Wen a phasiwyd i wneud cais am arian grant i roi haenan o 'darmac plannings' ar wyneb y maes parcio. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu gyda swyddogion Conwy i holi am arian grant a chysylltu gyda'r cwmni C T Roberts o Lanrwst i gael pris.

3. CYNLLUNIO

3.1 Cyfeirnod: 0/50795 Codi estyniad arfaethedig o Bergola Bio-hinsoddol yng nghefn yr adeilad. Hafod Y Wennol Ffordd Fron Francis Llanddaged

3.2 Cyfeirnod 0/50863 Mr A Wickham Garej Ddwbl Ar Wahân Tai Bach Ffordd Llyn Syberi Maenan .

Trafodwyd aelodau'r cyngor y ceisiadau cynllunio uchod a penderfynwyd a phasiwyd drwy aelodau y cyngor godi eu dwylo i gadarnhau fod dim gwrthwynebiad iddynt..

4. CYNNAL A CHADW

- 4.1 Angen tario'r manau pasio ar ffordd yr Abbey rhwng Wigfa a Thŷ'r Ysgol, Maenan.
- 4.2 Angen torri gwair pob ochr i ffordd Abergele yn Tyrpeg.
- 4.3 Angen torri yr eithin ar ochr y ffordd wrth groesffordd Llanddoged yn Tyrpeg.
- 4.4 Gordyfiant wrth y fainc goesffordd Plas Ednyfed, Llanddoged ac arwydd Llanddoged.
- 4.5 Angen llenwi ambell i dwll ar allt Salem, Llanddoged.
- 4.6 Angen edrych ar cyflwr y ffordd rhwng Rhiwlas a Bryn Saith, Llanddoged.
- 4.7 Cais gan yng. John Owen i gael cyfarfod gyd Mr Emyr Jones o'r Adran Priffyrdd Conwy i drafod materion wrth Ffridd Ucha, Maenan.

5. UNRHYW FATER ARALL

- 5.1 Derbyniwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd ynglŷn â'r baw cwn o gwmpas ffordd Trwyn Swch wrth yr ysgol.

Y clerch am gysylltu gyda Chyngor Conwy i holi am arwyddion baw cwn.